Ysgol Gymraeg Gwaun Cae Gurwen

...ymlaen law, yn llaw...

Crynodeb o dargedau Cynllun Datblygu Ysgol 2026-27
Summary of 2026-27 School Development Targets

Intended outcome	Success criteria
Sefydlu Adran Dan 5 – Adran Y Gors er mwyn creu continwwm clir a chyson rhwng y Meithrin a'r Derbyn, gan gryfhau datblygiad iaith lafar, ymwybyddiaeth ffonolegol a defnydd strategol o'r amgylcheddau mewnol ac allanol o oedran cynnar. *Establish an Under-5s Department – Adran Y Gors in order to create a clear and consistent continuum between Nursery and Reception, strengthening spoken language development, phonological awareness, and the strategic use of indoor and outdoor environments from an early age*	Bydd rhan fwyaf o blant yn cyrraedd blwyddyn 1 gyda sgiliau cyfathrebu Cymraeg a geirfa'n nes at y disgwyl ar gyfer eu hoedran. Bydd rhan fwyaf yn defnyddio'r amgylchedd allanol yn fwy annibynnol a phwrpasol i ddatblygu iaith, sgiliau corfforol a datrys problemau. Bydd rhan fwyaf yn dangos cynnydd amlwg mewn sgiliau echddygol bras (cydbwysedd, dringo, taflu, dal, symud yn hyderus) drwy chwarae pwrpasol yn yr ardaloedd allanol. Bydd rhan fwyaf yn datblygu sgiliau echddygol mân (gafael, trin offer, torri, tynnu llun) sy'n sylfaen bwysig ar gyfer sgiliau ysgrifennu cynnar. Bydd rhan fwyaf yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o'u corff a'u gofod o'u cwmpas wrth symud rhwng gweithgareddau *The majority of pupils will arrive at Year 1 with Welsh communication skills and vocabulary closer to what is expected for their age.* *The majority will use the outdoor environment more independently and purposefully to develop language, physical skills and problem-solving.* *The majority will show clear progress in gross motor skills (balance, climbing, throwing, catching, moving confidently) through purposeful play in the outdoor areas.* *The majority will develop fine motor skills (grip, handling tools, cutting, drawing) which are an important foundation for early writing skills.* *The majority will show growing awareness of their body and the space around them as they move between activities.*

Ysgol Gymraeg Gwaun Cae Gurwen

...ymlaen law, yn llaw...

I ddatblygu sgiliau darllen dysgwyr ar draws yr ysgol. *To develop learners' reading skills across the school.*	Bydd y rhan fwyaf o blant yn gadael Adran y Gors gyda sylfaen gadarn o sgiliau cyn-darllen, gan gynnwys ymwybyddiaeth ffonolegol, geirfa a dealltwriaeth lafar sy'n briodol i'w hoedran. Bydd bron pob disgybl yn cyrraedd Blwyddyn 3 yn gallu adnabod llythrennau a chyfuno synau i ddarllen gair yn gywir ac yn hyderus. Bydd llawer o ddisgyblion ar draws Adran y Cegyr Wen yn defnyddio ystod ehangach o uwch sgiliau darllen yn annibynnol, yn enwedig wrth ddehongli a chrynhoi testunau estynedig. Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwell rhuglder a mwynhad wrth ddarllen, gyda geirfa gynyddol eang yn cefnogi eu dealltwriaeth o destunau. *The majority of children will leave Adran y Gors with a solid foundation of pre-reading skills, including phonological awareness, vocabulary and oral comprehension appropriate to their age.* *Almost all pupils will reach Year 3 able to recognise letters and blend sounds to read a word accurately and confidently.* *Many pupils across Adran y Cegyr Wen will independently use a wider range of higher-order reading skills, particularly when interpreting and summarising extended texts.* *The majority of pupils will show improved fluency and enjoyment in reading, with an increasingly broad vocabulary supporting their understanding of texts.*

Ysgol Gymraeg Gwaun Cae Gurwen

...ymlaen law, yn llaw...

Parhau i ddatblygu annibyniaeth dysgwyr trwy ganolbwyntio ar dri maes allweddol: defnyddio adborth i wella, arwain ymholi, a gweithio'n gydweithredol. Sicrhau cysondeb a dyfnder yn y ffordd y mae'r tri maes hyn yn cael eu defnyddio ar draws yr ysgol, fel bod disgyblion yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain *To continue developing learners' independence by focusing on three key areas: using feedback to improve, leading inquiry, and working collaboratively. To ensure consistency and depth in how these three areas are used across the school, so that pupils take greater responsibility for their own learning*	Bydd rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu, gan weithio'n fwy annibynnol yn ystod gwersi a gweithgareddau. Bydd rhan fwyaf disgyblion yn deall beth maent yn ei ddysgu, pam a sut i lwyddo, ac yn gallu esbonio hyn yn glir. Bydd bron pob un o ddisgyblion yn gallu ymateb yn effeithiol i adborth, gan wneud newidiadau i wella ansawdd eu gwaith. Bydd rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio sgiliau hunanasesu ac asesu cymheiriaid i fyfyrio ar eu gwaith a nodi camau nesaf. Bydd rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwell gallu i gydweithio, gan ddefnyddio iaith briodol wrth gyd-drafod a datrys problemau. Bydd rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u sgiliau trawsgwricwlaidd a gwybodaeth mewn cyd-destunau newydd, gan ddangos meddwl creadigol ac annibyniaeth. Bydd rhan fwyaf o ddisgyblion hynaf yr ysgol yn gallu ymchwilio, gwneud dewisiadau a datblygu syniadau eu hunain mewn gwaith estynedig *The majority of pupils will take greater responsibility for their learning, working more independently during lessons and activities.* *The majority of pupils will understand what they are learning, why and how to succeed, and will be able to explain this clearly.* *Almost all pupils will be able to respond effectively to feedback, making changes to improve the quality of their work.* *The majority of pupils will use self-assessment and peer-assessment skills to reflect on their work and identify next steps.*

	The majority of pupils will show improved ability to collaborate, using appropriate language when discussing and solving problems together. *The majority of pupils will use their cross-curricular skills and knowledge in new contexts, showing creative thinking and independence.* *The majority of the school's oldest pupils will be able to research, make choices and develop their own ideas in extended work.*